Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Medi 2016

Amser: 09.15 – 12.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3703

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Michelle Brown AC Hefin David AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC
Tystion:	Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru Dr Heather Payne, Prif Swyddog Feddygol, Llywodraeth Cymru

	Albert Heaney, Llywodraeth Cymru Irfon Rees, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) Sarah Hatherley (Ymchwilydd) Sian Thomas (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 1MB) Gweld fel HTML (278KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Comisiynydd Plant Cymru – trafodaeth ynghylch blaenoriaethau

Rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cytunodd y Comisiynydd i barhau i ddiweddaru'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth Cymru ac eraill o ran datblygu prosesau i fynd i'r afael â bwlio.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

Derbyniwyd y cynnig.

4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar yr amlinelliad o'i flaenraglen waith dros dro ar gyfer tymor yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf, ochr yn ochr â'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad cyhoeddus y Pwyllgor ar ei flaenoriaethau.

5 Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol - sesiwn graffu

O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Hefin David AC ei fod yn gyn-ddarlithydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar eu meysydd cyfrifoldeb.

Cytunodd y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu copi o'r llythyr a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ynghylch Strategaeth y DU ar Ordewdra ymysg Plant.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i ddarparu:

- Nodyn ar nifer y nyrsys ysgol yng Nghymru;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad a gaiff ei gynnal gan y Prif Swyddog Nyrsio ar nyrsio ysgol; ac
- Y cynlluniau diweddaraf o ran y datblygiadau newyddenedigol newydd yng Nghaerdydd.

6 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y dull gweithredu ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru

6.3 Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn

6.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch cylch gwaith y Pwyllgor

6.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf

6.6 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf

6.7 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 22 Medi 2016

Derbyniwyd y cynnig.